Daeth Callum hefyd a'i gasgliad o arian a stampiau i'w dangos i ni. Diolch Callum bydd dy gasgliad dithau yn tyfu wrth i'r blynyddoedd fynd heibio.

Dydd y Llyfr

Daeth rhai plant i'r ysgol wedi'u gwisgo fel eu hoff gymeriadau llenyddol. Bu rhai plant yn ddigon lwcus i gael mynd i lawr i siop lyfrau Ottakers a chael stori gan awduron enwog.

Ymddeolwyr

Aeth criw o blant yr ysgol i gadw cyngerdd Gŵyl Ddewi i'r ymddeolwyr yn yr hen ysgol. Cawsant groeso mawr a lluniaeth i ddilyn. Diolch i Nia Lewis am gyfeilio i ni.

999

Daeth y Frigad Dân i ymweld â'r ysgol gyfan yn ddiweddar i sgwrsio am ddiogelwch yn y cartref ac yna bu'r dosbarthiadau Iau yn cymryd rhan mewn amrywiol weithgareddau.